# Ymchwiliad cyhoeddus i gam-drin plant hanesyddol

Y Pwyllgor Deisebau | 2020
Petitions Committee | 2020

## Papur briffio gan Ymchwil y Senedd:

Rhif y ddeiseb: P-05-954

Teitl y ddeiseb: Deiseb yn galw am ymchwiliad cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru i gam-drin plant hanesyddol ar Ynys Bŷr

Cynnwys y ddeiseb: Fel dioddefyr o gam-drin ar Ynys Byr, rwyn ymrwyn i gael Llywodraeth Cymru i gynnal ymchwiliad cyhoeddus i camdrin Hanesyddol ar yr ynys. Mae angen y gwir ag atebion at y dioddefwyr, pam bod ymchwiliad sydd dal yn perhausers 29 mlynoeadd wedi ffeili y dioddefwyr. Mae'n bwysyg i gael ymchwiliad i ddiogeli plant y dyfodol.

## Y cefndir

Ym mis Tachwedd 2017, cafwyd adroddiad ym mhapur newydd *The Guardian* yn nodi bod chwe menyw wedi dechrau achos sifil yn erbyn yr Urdd Sistersaidd yn honni bod mynach, y Tad Thaddeus Kotik o Abaty'r Forwyn Fair a Sant Samson ar Ynys Bŷr, wedi eu cam-drin yn rhywiol yn ystod y 1970au a'r 1980au. Nododd yr erthygl yn *The Guardian* fod y plant wedi dweud wrth eu rhieni am y cam-drin ac i'r Abad gael ei hysbysu. Yn dilyn hynny, cafodd y menywod iawndaliadau.

Ar ôl yr adroddiad yn *The Guardian*, cafwyd adroddiad gan BBC Cymru yn nodi bod Heddlu Dyfed-Powys wedi cadarnhau eu bod wedi cael adroddiadau o gamdriniaeth, ac er y bu ymchwiliadau yn 2014 a 2016 nid oedd modd erlyn gan y bu farw'r mynach ym 1992. Galwodd y Grŵp Goroeswyr Cam-drin Rhywiol gan Weinidogion a Chlerigwyr am ymchwiliad annibynnol ar y pryd, a chafwyd adroddwyd gan y BBC yn nodi bod Comisiynydd Plant Cymru wedi dweud nad oedd digon o wybodaeth ar gael i lansio ymchwiliad.

### Diben ymchwiliad cyhoeddus

Mae Canllawiau Ymchwiliadau Swyddfa'r Cabinet yn datgan y caiff ymchwiliad ei sefydlu am un neu fwy o resymau. Mae'r rhain yn cynnwys:



RS Ref: 20/12393

- Darganfod beth sydd wedi achosi trychineb, damwain neu ddigwyddiad arall o bwys sy'n gysylltiedig â difrod sylweddol neu farwolaethau;
- Gwneud argymhellion o ran sut i ddysgu gwersi yn sgil digwyddiad o'r fath;
- Ymchwilio i honiadau difrifol sy'n destun pryder i'r cyhoedd lle mae angen cynnal ymchwiliad diduedd, a lle nad yw'r prosesau sifil neu droseddol arferol yn ddigonol nac yn briodol.

### Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

Sefydlwyd yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IICSA) yn 2014 yn dilyn achosion difrifol, proffil uchel o gam-drin plant yn rhywiol yn y gorffennol. Mae'r Ymchwiliad wedi lansio 15 o ymchwiliadau i ystod eang o sefydliadau a ddewiswyd ar sail meini prawf y Panel ar gyfer dewis ymchwiliadau. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwiliadau ar wahân i Sefydliadau a Lleoliadau Crefyddol; yr Eglwys Anglicanaidd; a'r Eglwys Gatholig Rufeinig.

Yn ei llythyr at y Pwyllgor, mae Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn dweud bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i'r Ymchwiliad Annibynnol am y digwyddiadau ar Ynys Bŷr. Mae IICSA wedi dweud bod hwn yn fater o ddiddordeb iddynt.

### Y Prosiect Gwirionedd

Mae'r Prosiect Gwirionedd yn rhan o IICSA. Ei nod yw cynnig cyfle i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol rannu eu profiadau a chael eu clywed a'u trin â pharch. Gellir rhannu profiadau yn ysgrifenedig, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb (mae'r opsiwn hwn wedi cael ei atal dros dro yn unol â chanllawiau cadw pellter cymdeithasol).

Nid yw gwasanaeth cymorth y Prosiect Gwirionedd yn darparu therapi nac yn gwneud atgyfeiriadau at therapyddion, ac nid yw'n helpu gydag adferiad tymor hir. Gall gynnig:

- cymorth emosiynol ac ymarferol wrth rannu profiadau, a help gydag unrhyw gwestiynau neu bryderon sydd gan ddioddefwr neu oroeswr, a
- chyngor ar wasanaethau eraill a all roi mwy o gymorth yn y dyfodol.

**Nid yw rhannu eich profiad â'r Prosiect Gwirionedd yn rhan o broses gyfreithiol ac ni fydd IICSA yn ymchwilio i achos unigolyn.**

## Camau gweithredu Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar 29 Tachwedd 2017, gofynnodd Darren Millar AC i'r Gweinidog Gofal Cymdeithasol a Phlant ar y pryd, Huw Irranca-Davies, a roddwyd unrhyw ystyriaeth i gomisiynu ymchwiliad annibynnol i honiadau o gam-drin ar Ynys Bŷr. Mewn ymateb, dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cynghori unrhyw un a ddioddefodd gamdriniaeth i'w hadrodd i'r heddlu, ac i gysylltu â gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol neu'r Prosiect Gwirionedd. Dywedodd hefyd fod Heddlu Dyfed-Powys, bryd hynny, yn ymchwilio i'r honiadau, ac o'r herwydd, ni fyddai'n briodol rhoi sylwadau pellach. Nododd hefyd fod y Comisiynydd Plant

wedi ysgrifennu at abaty Ynys Bŷr i geisio sicrwydd. Dywedodd ei bod yn rhy gynnar i alw am ymchwiliad oherwydd y manylion a oedd yn dal i ddod i'r amlwg a'r ymchwiliad byw gan yr heddlu.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir ar adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn o reidrwydd yn cael eu diweddaru na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.